OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

## RHAN 12

Tramgwyddau a Chosbau

### Rhwystro

**60.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson—

(a) rhwystro unrhyw berson yn fwriadol wrth iddo arfer pŵer a roddwyd gan reoliad 8 neu 9 neu wrth iddo gyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall;

(b) methu cydymffurfio heb esgus rhesymol â gofyniad a osodwyd arno yn unol â rheoliad 8 neu 9, neu fethu rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pwer a roddwyd gan y rheoliadau hynny, neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall, unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall fod ar y person hwnnw angen rhesymol amdano neu amdani er mwyn arfer y pŵer neu gyflawni'r swyddogaeth; neu

(c) rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pŵer a roddwyd gan reoliad 8 neu 9 neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol.

(2) Rhaid i baragraff (1)(b) beidio â'i gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn neu roi unrhyw wybodaeth os byddai gwneud hynny yn gallu taflu bai arno.

### Amddiffyniad diwydrwydd dyladwy

**61.**—(1) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dorri un o ddarpariaethau'r rheoliadau a restrir yn Atodlen 4, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu i osgoi iddo gael ei gyflawni gan berson o dan ei reolaeth.

(2) Os yw'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos yn cynnwys honni bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu fethiant person arall, neu oherwydd i'r person a gyhuddir ddibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni chaiff y person a gyhuddir, heb ganiatâd y Llys, yr hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw, oni bai—

(a) o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawiad; a

(b) os yw ef eisoes wedi ymddangos o flaen llys, neu wedi ei ddwyn gerbron llys mewn perthynas â'r tramgwydd honedig, o fewn un mis o'i ymddangosiad am y tro cyntaf,

ei fod wedi cyflwyno i'r erlynydd hysbysiad ysgrifenedig a oedd ar yr adeg honno yn ei feddiant ac sy'n rhoi'r wybodaeth honno sy'n fodd i adnabod neu'n gymorth i adnabod y person arall hwnnw.

### Toriadau

**62.** Bydd unrhyw berson—

(a) sy'n torri un o ddarpariaethau'r Rholiadau hyn, ac eithrio—

(i) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 8(2) a 19(3) yn cyfeirio at dalu costau; a

(ii) y darpariaethau a geir yn rheoliadau 23(7), 28, 43(5), 45(2) a 55; neu

(b) sy'n methu cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn,

yn euog o dramgwydd.

**Cosbau**

**63.**—(1) Bydd person sy'n euog o'r tramgwydd o dorri rheoliad 60(1)(a) neu (b) yn agored i'w gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i gyfnod yn y carchar heb fod yn fwy na thri mis, neu i'r ddau.

(2) Bydd person sy'n euog o unrhyw dramgwydd arall o dan y Rheoliadau hyn yn agored—

(a) i'w gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol neu i'w garcharu am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis neu i'r ddau;

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd neu i'r ddau.

**Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol**

**64.**—(1) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran un o swyddogion corfforaethol y corff corfforaethol, bydd ef, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi'n unol â hynny.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "swyddog corfforaethol" mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.